

## Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddïau heddiw eto. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Helen Jones (Peniel) a'r teulu yn dilyn marwolaeth brawd Helen yn ddiweddar. Gweddïwn y byddant yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu yn eu profedigaeth. Cofiw'n hefyd am eraill sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf a chyflwynwn hwythau yn dyner i ofal Duw.

Anfonwn ein cofion at y cleifion yn ein plith. Yn yr ysbyty y mae Bob Edwards (Groes) a Bessie Owens (Cefn Berain), ac yno hefyd y bu Geraint Lloyd (Peniel) am ychydig ddyddiau. Cyflwynwn y tri ohonynt yn ein gweddïau gan ofyn i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwen Evans (Saron) ar ddathlu penblwydd arbennig!

## Newyddion Da

Gyda llawenydd y gallwn gyhoeddi fod Gwenan Roberts wedi cael ei hethol i wasanaethu fel blaenor yng Nghapel Llanefydd. Diolchwn i Dduw amdani a dymunwn yn dda iddi yn y gwaith. Bydd Gwenan yn cael ei hordeinio mewn oedfa gyhoeddus yng Nghapel Cefn Meiriadog ar Orffennaf 13<sup>eg</sup> am 6.30 yr hwyr. Dymunwn fendith Duw arni.

## Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn nos Fercher (17<sup>eg</sup>), os gwelwch yn dda.

## I ddod

### ➤ RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:

- ⇒ **Cwrs Ieuencid (i flynyddoedd 7 – 11):** Gorffennaf 29ain – Awst 2il
- ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 12fed – 15fed
- ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 17eg – 22ain

Cofiwch fod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.



## Llais Bro Aled

Gorffennaf 7<sup>fed</sup> a 14<sup>eg</sup>, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes i chi ar ddydd Sul gwahanol i'r arfer ym Mro Aled. I ddechrau, bydd yn hyfryd cael cwmni Owain Edwards, Coleg y Bala wrth iddo ddod atom ar gyfer Bore Bro Aled yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Yna'n hwyrach ymlaen, byddwn yn croesawu Meilyr Geraint atom i oedfa o fawl yn Llansannan am 6.00. Rydym fel eglwys yn adnabod Owain yn dda erbyn hyn ac yn werthfawrogol iawn o'i weinidogaeth a gwaith pwysig Coleg y Bala, ond mae'n siŵr fod Meilyr yn enw newydd i nifer ohonom. Cerddor ifanc o Gristion sy'n dod o Bontypridd yw Meilyr ac mae ganddo weinidogaeth arbennig trwy gyfansoddi caneuon mawl cyfoes. Mae'n bosib i chi weld cip arno ar y rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol yn ddiweddar o ŵyl Llanw. Croeso iddo i Fro Dinbych (bydd yn arwain oedfa yno yn y bore!) ac i Fro Aled, ac edrychwn ymlaen am fendith yn ei gwmni.

I'r rhai ohonoch sy'n dilyn twrnament tenis Wimbledon, mae'n debyg bod enw Coco Gauff yn gyfarwydd erbyn hyn. Yn bymtheg oed, llwyddodd yr Americanaes i drechu'r cyn-bencampwraig Venus Williams (sydd 24 blynedd yn hŷn), a bellach mae hi wedi cyrraedd trydedd rownd y bencampwriaeth. Mae'n anodd peidio â rhyfeddu wrth feddwl bod Venus Williams wedi ennill ei thlws Wimbledon cyntaf yn 2000, bedair blynedd cyn i Gauff gael ei geni! Wrth i un genhedlaeth gymryd yr awenau gan y llall, byddai'n hawdd tybio fod popeth yn wahanol, ond gor-ddweud fyddai hynny. Er y datblygiad syfrdanol mewn technoleg, mae'r pethau mwyaf sylfaenol yn aros yn gyson. Mewn tenis, yr un yw maint y cwrt ac uchder y rhwyd, a'r un yw amcan y chwaraewyr wrth iddynt geisio cael y gorau ar y gwrthwynebydd! Ac wrth i ni ystyried sut mae pethau'n newid yn ein cymdeithas a'n byd ni, cofiw'n gyda hyder eiriau Hebraid 13:8 'Iesu Grist yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth.'

Rhoddodd Cristnogion pob oes eu ffydd yng Nghrist, gan ymddiried fod yr hyn wnaeth Iesu trwy ei fywyd, ei farwolaeth a'i atgyfodiad yn ddigon i wneud gwahaniaeth tragwyddol i bawb sy'n credu. Dyma ganolbwynt newyddion da Cristnogaeth ym mhob cenhedlaeth – bod mab Duw wedi dod i'r byd i gymodi pobl bechadurus a thoredig gyda'u Creawdwr. Er bod ymateb cymdeithas i'r Efengyl yn newid o oes i oes, nid oes angen i ni ddigalonni na thybio bod yr Efengyl wedi colli ei grym heddiw. A gallwn ddiolch i Dduw fod gan Gristnogion pob oes eu rhan i'w chwarae hefyd, wrth iddynt gael eu galw i ddilyn Iesu mewn gair a gweithred, i fyw fel plant goleuni gan wneud yn siŵr beth sy'n gymeradwy gan yr Arglwydd. (Effesiaid 5:8,10)

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 7<sup>fed</sup>
- **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan yng nghwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala **am 10.30 y bore** – y tro hwn yng Nghefn Meiriadog. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
  - **Oedfa o Fawl** yng nghwmni Meilyr Geraint, cerddor ifanc o Bontypridd yn Llansannan am 6.00.
- Mercher – 10<sup>fed</sup>
- **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 11<sup>eg</sup>
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 12<sup>fed</sup>
- **C.I.C. (Clwb Ieuenctid Cristnogol) Bro Aled** yn cyfarfod ar y cyd â C.I.C. Bro Dinbych yn Llandyrnog. Cysylltwch â Rhodri am fwy o wybodaeth.
- Sadwrn – 13<sup>eg</sup>
- Bydd **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Cefn Meiriadog. Bydd eisteddiad o'r Henaduriaeth ac ymddiddan â'r blaenoriaid newydd **am 4.30**, ac oedfa gyhoeddus **am 6.30** yng nghwmni Mrs Cynthia Owen, Llywydd Sasiwn y Gogledd, pryd y bydd blaenoriaid yn cael eu llongyfarch am hir wasanaeth, a blaenoriaid newydd yn cael eu hordeinio.
- 
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.
- 
- Sul canlynol – 21<sup>ain</sup>
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 7<sup>fed</sup>
- **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yng Nghefn Meiriadog.
- 
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 11.00.
  - Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00, a bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg.
- 
- Sul canlynol – 21<sup>ain</sup>
- Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30 ac yn Llanefydd am 11.00.

### Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 7<sup>fed</sup>
- **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yng Nghefn Meiriadog.
- Llun – 8<sup>fed</sup>
- Sesiwn Celf y grŵp Paned a Sgwrs hefo Dawn Wilks yn Festri Llansannan 1.00–3.45 y pawns.
- Mawrth – 9<sup>fed</sup>
- Cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Mercher – 10<sup>fed</sup>
- Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (7<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- 
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup>
- Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a'r Ysgol Sul yn dilyn am 10.30.
  - Cynhelir Ysgol Sul yn Llansannan am 10.00 a bydd oedfa wedi ei threfnu am 11.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Mercher – 17<sup>eg</sup>
- Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (14<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- 
- Sul canlynol – 21<sup>ain</sup>
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi am 11.00.
  - Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog **am 10.30 (sylwch ar yr amser)** ac yn Llanfair am 11.00.
  - Bydd Rhodri yn arwain Gwasanaeth Dinesig Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Meirick Ll. Davies, yng Nghapel Cefn Meiriadog am 2.00.

### Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 7<sup>fed</sup>
- **Bore Bro Aled** – Oedfa i'r teulu cyfan **am 10.30 y bore** – y tro hwn yng Nghefn Meiriadog.
- 
- Sul nesaf – 14<sup>eg</sup>
- Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
- 
- Sul canlynol – 21<sup>ain</sup>
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (17eg), os gwelwch yn dda.

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.